

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Pentrecelyn

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Pentrecelyn yn ysgol gartrefol, hapus lle mae'r disgyblion a'r oedolion yn cydweithio'n effeithiol. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Maent yn foesgar a charedig gyda'i gilydd a gydag ymwelwyr a staff. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o ymgysylltu'n ddyddiol â disgyblion o'r dosbarthiadau eraill, er enghraifft wrth gyd-giniawa, ac yn ystod gweithgareddau yn y goedwig. Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o bartneriaethau yn lleol ac yn ehangach ac mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm difyr sy'n canolbwyntio ar eu milltir sgwâr, tra hefyd yn edrych ar berthynas yr ardal â Chymru a'r byd ehangach. O'r cychwyn cyntaf, mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau dysgu difyr ac ymestynnol sy'n caniatáu iddynt fagu annibyniaeth, a dysgu i drafod a chydweithio â'u cymheiriaid. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd, llythrennedd a medrau digidol trwy themâu diddorol sy'n aml yn canolbwyntio ar y gymuned amaethyddol yn lleol. Mae'r disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gweithgareddau a heriau amrywiol.

Mae medrau llafar a darllen y disgyblion yn gadarn, ac maent yn siarad yn naturiol gyda'u ffrindiau gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Mae'r rhan fwyaf yn arddangos medrau rhifedd effeithiol. Gall y rhan fwyaf ddefnyddio offer digidol yn aeddfed ar gyfer gwahanol ddibenion. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig wedi datblygu'n llawn, ac nid yw lefel yr her bob amser yn gyson mewn ychydig o weithgareddau.

Mae'r pennaeth a'r tîm ymroddgar o athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn cynnal a datblygu'r ddarpariaeth. Maent yn cynnig gwahanol ymyraethau i gynnal lles a hyder y disgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn cynllunio'n fanwl ar eu cyfer. Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n llwyddiannus fel ffrind beirniadol i'r ysgol gan gydweithio'n agos â'r pennaeth a'r tîm.

# Argymhellion

**A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau**

**A2 Sicrhau bod profiadau dysgu'n herio disgyblion i ddatblygu eu medrau i safon uchel**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Pentrecelyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 31 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/11/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 28/02/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.